

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL A THAI
GWASANAETHAU PLANT



GALLA I WELD
FY
FFEIL?


Mae angen i Wasanaethau Cymdeithasol Torfaen gadw cofnodion ynghylch ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Cedwir y wybodaeth er mwyn ein galluogi i drefnu gwasanaethau ar gyfer pobl a chyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

Mae Deddf Gwarchod Data 1998 yn rhoi'r hawl i chi weld y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch.

Mae'r wybodaeth na fedrwn o bosib ei rhoi i chi yn cynnwys:

- ◆ Gwybodaeth a gofnodwyd ar bapur cyn Ebrill 1 1989. Nid oes cyfyngiad o ran dyddiad ar gofnodion cyfrifiadurol
- ◆ Gwybodaeth sydd ddim yn ymwneud â chi
- ◆ Gwybodaeth ynghylch atal neu ddatgelu trosedd
- ◆ Ffeiliau Mabwysiadu - mae yna reolau arbennig ynglŷn â gweld y wybodaeth hon
- ◆ Mewn achosion arbennig, os oes yna berygl o niwed
- ◆ Gwybodaeth sydd, oherwydd y rheswm y cafodd ei gasglu a chyfnod yr amser a aeth heibio, yr ydym heb ei gadw



Ble alla i gael cyngor?

Siaradwch â'ch rhieni, eich gweithiwr cymdeithasol neu eich gofalwr maeth, ynglŷn â gweld eich ffeil, a beth allai hyn ei olygu.

Os hoffech chi siarad â rhywun annibynnol, gallwch gysylltu â Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS). Mi fydd rhywun yn gwrando arnoch, ac yn eich helpu i benderfynu beth i'w wneud.

Rhadffôn: 0800 616 101

E-bost: help@nyas.net

Gwefan: www.nyas.net

Sut ydw i'n gwneud cais i weld fy ffeil?

Os hoffech gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, cwblhewch y ffurflen (drosodd) a'i dychwelyd, gyda phrawf o bwy ydych, at:

Rheolwr Gwybodaeth (Gwasanaethau Cymdeithasol)
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Neuadd y Sir
Cwmbrân
NP44 2WN



3

CAIS I WELD FY FFEIL BERSONOL

Dymunaf weld cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen sy'n cynnwys gwybodaeth amdanaf.

Enw llawn
Dyddiad geni
Eich Cyfeiriad
Cyfeiriad blaenorol (os ydych wedi byw am lai na thair blynedd yn y cyfeiriad uchod)
Os ydych dan 18 mlwydd oed, mae angen oedolyn sy'n eich adnabod, i arwyddo'r ffurflen : Enw'r oedolyn.....
Cyfeiriad
Cadarnhaf fod (enw'r plentyn neu'r person ifanc) yn deall yr hyn y mae ymgeisio i weld gwybodaeth bersonol ar ei ffeil, yn ei olygu. Arwyddwyd..... Dyddiad.....